Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Papur y Bwrdd

27 Mawrth 2015

Teitl y Papur	**Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio 2015-2020**
Cyfeirnod y Papur:	**CNC B B 18.15**
Paratowyd y Papur gan:	**Rhian Jardine**: Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy, y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio (KSP) **Steve Cook**: Rheolwr, Strategaeth Cymunedau, Rheoli Perygl ac Achosion o Lifogydd, KSP **Barbara Anglezarke**: Arweinydd Tîm, Tîm Cymunedau ac Adfywio, Cymunedau Cynaliadwy, KSP

Pwrpas y Papur:	Cyflwyno dull Cymunedau ac Adfywio fel y gall CNC gyflawni ymrwymiadau ein cynllun corfforaethol.
Argymhelliad:	**Cymeradwyo** Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio 2015-2020, y Cynllun Gweithredu cysylltiedig a'r Cynllun Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA) dangosol.
Angen Penderfyniad:	OES

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd hyrwyddo dulliau rheoli adnoddau naturiol a gweithio i hwyluso cysylltiadau dyfnach rhwng cymunedau a'u mannau gwyrdd lleol yn helpu pobl i ddeall, gwerthfawrogi a gofalu am yr amgylchedd. **Effaith ar yr Economi**: Mae yna gyfleoedd i gefnogi datblygiad sgiliau a thwf gwyrdd drwy hwyluso mynediad cymunedol i dir a reolir gennym; yn cynnwys sicrhau manteision i gymunedau yn ein gweithgareddau caffael; a chyfleoedd sgiliau a chyflogaeth. **Effaith ar y Gymuned**: Mae cael y gymuned i ymgysylltu â'r amgylchedd yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, yn sicrhau manteision iechyd a lles uniongyrchol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a dysgu, ac yn helpu i leihau effeithiau llygredd, llifogydd a newid yn yr hinsawdd. **Effaith ar Wybodaeth**: Bydd y Cynllun Galluogi hwn yn cael ei gyflawni ar sail tystiolaeth – gwneud defnydd gorau o'r data sydd ar gael a sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n gadarn.

Pwnc
1. Yn ein Cynllun Corfforaethol fe wnaethom ymrwymiad i helpu i sicrhau bod pobl yn gallu byw a gweithio mewn amgylchedd safonol ac ymweld ag amgylchedd felly a defnyddio adnoddau naturiol i helpu cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a threchu tlodi. Rydym wedi adolygu ein hymagwedd at gymunedau ac adfywio a sut i wneud hyn yn addas ar gyfer cyflawni ein diben a'r ymrwymiadau yn y Cynllun Corfforaethol. Y prif agweddau i'r Bwrdd eu hystyried yw:

- Mae Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio effeithiol yn hanfodol fel y gallwn ddylanwadu ar y cymunedau mwyaf difreintiedig ac ymgysylltu â nhw drwy eu cefnogi drwy gyfleoedd rheoli adnoddau naturiol, yn cynnwys ar y tir a reolir gennym.

- Mae cysylltiad clir rhwng nodau'r Cynllun Galluogi hwn â chynlluniau galluogi 'ymgysylltu â phobl' eraill sydd wedi'u cymeradwyo neu wrthi'n cael eu datblygu. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn cael eu sefydlu yn gynnar yn y broses gyflawni a bod y cynlluniau galluogi'n ategu ei gilydd.

- Drwy weithredu'r Cynllun Galluogi hwn, mae CNC yn ymrwymo i newid cyfeiriad y gwaith gan ganolbwyntio ar sut y byddwn ni'n cynorthwyo, cefnogi a hwyluso eraill i ddarparu a chyflawni ein hamcanion drwy rannu ein harbenigedd, cyfleusterau ac asedau. Mae hefyd yn blaenoriaethu ein rôl o ddylanwadu'n strategol ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r Cynllun yn un o gyfres o Gynlluniau Galluogi Da i Bobl, yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau ein Cynlluniau ar gyfer Addysg, Dysgu a Sgiliau, a Hamdden Awyr Agored a Mynediad – a chyda'n Strategaethau Cyfathrebu, Menter a Chaffael.

Crynodeb
2. Mae'r Cynllun Galluogi'n cyflawni pedair prif elfen:

Fel corff cyhoeddus a rheolwr tir:
Bod yn esiampl o gorff cyhoeddus, gan hyrwyddo a sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer menter, datblygu sgiliau a hyrwyddo lles drwy'r tir rydym yn ei reoli ac yn dylanwadu arno, a'r ffordd rydym yn cynnal ein gwaith.

Fel rheoleiddiwr:
Gwella gallu cymunedau i wrthsefyll effeithiau llygredd, llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

Fel hwylusydd:
Cael y gymuned i gymryd mwy o ran yng ngwaith rheoli mannau gwyrdd naturiol hygyrch.

Fel cynghorydd dylanwadol:
Hyrwyddo cyfraniad mannau gwyrdd fel asedau naturiol grymus a hyblyg sy'n cefnogi lles ac economïau lleol ac fel modd o liniaru newid yn yr hinsawdd.

3. Byddwn yn monitro cynnydd yr elfennau hyn drwy ddull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (RBA). System rheoli perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yw RBA. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ddefnyddio'r dull hwn ledled ein sefydliad.

4. Mae rôl CNC fel sefydliad galluogi yn allweddol i'r Cynllun Galluogi hwn – bydd hwyluso ac annog eraill a gweithio gyda'n partneriaid yn rhan greiddiol o'n gwaith. Bydd helpu eraill i gyflawni lle maent yn y sefyllfa orau i wneud hynny, ar y tir a reolir gennym ni a thir arall, yn cael ei ymgorffori yn ein gwaith.

Cefndir

5. Bydd y Cynllun Galluogi hwn yn dwyn ynghyd ein gwaith cyfredol ym maes Cymunedau ac Adfywio i'w gysoni â'n gwaith Rheoli Adnoddau Naturiol ledled y busnes. Mae'r cwmpas yn eang – mae'n cynnwys y ffordd rydym yn:

- rheoli ein busnes ac yn galluogi eraill i ddefnyddio'r tir a reolwn i sicrhau ystod o fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol
- cynghori a chynorthwyo eraill i sicrhau manteision amrywiol tebyg i gymunedau yng ngweddill Cymru.

6. Bydd y Cynllun Galluogi yn arwain ein hadnodd cymunedau ac adfywio fel y gallwn gynnig gwasanaeth dylanwadol ac integredig gan ddefnyddio sgiliau a chymorth y staff a'r arbenigwyr angenrheidiol ledled y sefydliad. Bydd ein rôl yn cael ei ymgorffori yn ein gweithgareddau cyflawni craidd a bydd ein rôl ddylanwadu yn fwy strategol.

7. Datblygwyd y Cynllun Galluogi, y Cynllun Gweithredu a'r dull RBA gyda chymorth Is-grwpiau Cymunedau a Gwybodaeth y Bwrdd, cyfraniad gan gydweithwyr ledled y sefydliad a thrwy ymgynghori â sefydliadau allanol sy'n canolbwyntio llawer ar ddatblygu cymunedol.

8. Rydym wrthi'n datblygu Pecyn GIS Da i Bobl a fydd yn arwain y gwaith o roi Cynllun Gweithredu CNC ar waith. Bydd yn darparu dull seiliedig ar ofod i wneud penderfyniadau ar y ffordd orau o flaenoriaethu a defnyddio ein hadnoddau er mwyn sicrhau manteision yn y ffordd fwyaf effeithlon i'r cymunedau sydd eu hangen fwyaf.

Y Camau Nesaf

9. Os yw'r Cynllun Galluogi yn cael ei gymeradwyo, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig a'r Cynllun RBA, byddwn yn:

- Sicrhau bod cydweithwyr ledled CNC, a rhanddeiliaid allanol, yn ymwybodol o'i statws a'i gynnwys
- Gweithio gyda chydweithwyr ym mhob Cyfarwyddiaeth i hwyluso'r camau gweithredu priodol sy'n cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Cyflawni Cyfarwyddiaethau, gan ddefnyddio'r dull targedu gofodol i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau
- Defnyddio dull RBA i fonitro a gweithredu'r Cynllun
- Gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu ein gofynion data a thystiolaeth.

Risgiau

10. Os rhoddir cymeradwyaeth, o ystyried bod gennym lai o adnoddau bydd angen i CNC sicrhau bod y gwaith o ail-unioni ein darpariaeth (o ganlyniad i'r dull targedu gofodol) yn cael ei weithredu'n gyson a chydlynol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Drwy beidio â gwneud hynny gallai ein hadnoddau gael eu camleoli ac ni fyddai'r bobl a'r ardaloedd hynny a allai elwa fwyaf o'n darpariaeth hamdden a mynediad yn cael unrhyw fudd.

Mae yna alwad gynyddol i gyrff y sector cyhoeddus ymgysylltu ar delerau mwy cyfartal gyda'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu – gan gydweithio a gwneud penderfyniadau ar y cyd am flaenoriaethau'r cymunedau. Fel rheolwr tir a chontractau mawr byddwn yn destun gwaith craffu i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn sicrhau'r manteision gorau posibl i gymunedau. Byddwn angen staff medrus sy'n gallu hwyluso'r dull gweithio newydd hwn.

11. Mae cyflawni'r Cynllun Galluogi hwn yn llwyddiannus yn gofyn am dîm profiadol canolog bach, sy'n cefnogi staff medrus ac arbenigol sydd wedi'u lleoli mewn mannau penodol i fod yn gyfrifol am gyflawni ein gweithgareddau craidd a'r camau gweithredu a nodwyd.

Goblygiadau Ariannol
12. Bydd yr angen i gynnal ein gwaith gyda'r cymunedau a wasanaethwn ar adeg pan fo adnoddau'n prinhau yn gofyn am gynllunio gofalus ledled y Cyfarwyddiaethau. Bydd targedu gofodol (fel y nodir yn y Cynllun) yn helpu Cyfarwyddiaethau i gynllunio darpariaeth mewn modd cyson. Bydd defnyddio ein hadnoddau mewn modd wedi'i dargedu, a sicrhau bod y dull targedu gofodol yn cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau'n ein helpu ni i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, yn staff ac arian. Bydd hefyd yn cefnogi ein penderfyniad i dynnu yn ôl o waith mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun gweithredu 5 mlynedd naill ai'n flaenoriaethau sy'n parhau neu'n ffyrdd gwell o gyflawni busnes fel arfer. Bydd KSP yn trafod, cytuno a chefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau ar gyfer pob blwyddyn.

Mae timau ledled y busnes yn gweithio gyda chymunedau mewn gwahanol ddull a modd. Rydym yn amcangyfrif mai costau staff y rhai sy'n gysylltiedig â'r gwaith sy'n gyfrifol yn fwyaf uniongyrchol am wariant o tua £1 miliwn y flwyddyn.

Cyfathrebu
13. Bydd yr holl gyfathrebu gyda chydweithwyr, partneriaid a rhwydweithiau yn cael ei wneud yn unol ag argymhellion ein Strategaeth Gyfathrebu a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'r strategaeth hefyd yn berthnasol i'r holl ddata ac adnoddau sy'n cael eu darparu'n fewnol a'u cyhoeddi i sicrhau bod ein deunyddiau'n gyson ag arddull ein brand a'n fformat.

14. Rydym wedi datblygu'r Cynllun Galluogi gan ddefnyddio cyfraniad staff y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu ac mae adran 5 y Cynllun Gweithredu'n nodi beth fydd yn cael ei wneud i gyfathrebu a hyrwyddo'r Cynllun Galluogi hwn.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)
15. Mae gan CNC rwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi ein dosbarthu fel darparwr gwasanaethau ar ein tir ein hunain. Cynhaliwyd gwaith sgrinio cychwynnol ar y Cynllun Galluogi hwn o dan Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb CNC a chwblhawyd Cam 1 – gweler Atodiad 4. Byddwn yn gweithio gyda Diverse Cymru i gwblhau Cam 2 – yr Asesiad Effaith Llawn.

Atodiadau
Atodiad 1 – Cynllun Galluogi Cymunedau ac Adfywio 2015-2020

Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu Cymunedau ac Adfywio 2015-2020

Atodiad 3 – Cynllun Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau Cymunedau ac Adfywio 2015-2020

Atodiad 4 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Cam 1, Sgrinio Cychwynnol